

Bwletin Awdurdod S4C - Tachwedd 2003

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 28 Tachwedd 2003.

Aelodaeth yr Awdurdod

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawyd yn gynnes iawn y ddau Aelod newydd, Mr Roger Jones a Mr Dafydd Wigley, i'w cyfarfod cyntaf ar Awdurdod S4C.

TAC a Chôd Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni

Roedd trafodaethau yn parhau gyda TAC ond, roedd S4C nawr yn agos at sefyllfa lle byddai'n gallu cyflwyno cynllun i'r ITC/Ofcom fyddai'n adlewyrchu gofynion y canllawiau. Fe fyddai'r newidiadau yn deillio o hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd yr oedd S4C yn comisiynu.

Gwyl Sgrin Caerdydd

Llongyfarchwyd y Cyfarwyddwr Rhaglenni, oedd yn Gadeirydd ar yr Wyl, ar lwyddiant yr wythnos. Denodd yr achlysur tipyn mwy o bobl eleni gyda'r rheiny a fynychodd yn mynegi iddynt fwynhau.

Dathlu 21 mlynedd o Animeiddio yng Nghymru

Cynhaliwyd digwyddiad da iawn yn yr Hen Lyfrgell yr Hayes ar 18 Tachwedd pan olrhewiwyd 21 mlynedd o animeiddio yng Nghymru. Bu'r achlysur hefyd yn gyfle i dalu teyrnged i gyn-Gyfarwyddwr Animeiddio S4C, Chris Grace, am ei waith dros y cyfnod hwn.

Cymru'n Creu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod y grwp yma a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd. Yn ei ystod, cyflwynodd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd amlinelliad o egwyddorion adolygiad S4C. Yr amcan oedd i esbonio'r cefndir i'r adolygiad ac i annog aelodau Cymru'n Credu i gymryd rhan.

Cymraes y Flwyddyn

Cyfeiriwyd at y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd. Tra bu'r digwyddiad yn un digon llwyddiannus. Myngewyd pryder am y diffyg defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r achlysur. Er hynny, roedd ymwneud S4C â'r digwyddiad o leiaf wedi sicrhau bod y rhaglen ar y byrddau a'r noson yn ddwyieithog.

Cyfarfodydd gyda'r BBC -

- (a) Adroddwyd ar y cyfarfod rhwng y Cadeirydd a Llywodraethwr BBC Cymru ar 13 Tachwedd. Bu hwn yn gyfarfod adeiladol iawn lle'r oedd yna ysbryd calonogol iawn tuat at gydweithredu.
- (b) Diolchwyd i'r Aelodau am fynychu'r cyfarfod gydag aelodau Cyngor Darlledu Cymru noson 13 Tachwedd. Cytunodd bawb fod hwn yn achlysur positif iawn wedi cynnal o fewn awyrgylch cyfeillgar. Bu hwn yn gyfle i rannu egwyddorion adolygiad S4C gyda'r Cyngor Darlledu.

Ymgynghoriad yr ITC/Ofcom – Uniad Carlton/Granada

Nododd yr Awdurdod ymateb S4C i'r ymgynghoriad ar drefniadau gwerthiant hysbysebion a sefyllfa uniad Carlton/Granada. Nodwyd hefyd bwriad yr ITC i gyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.

Cronfa Sgrin

Nodwyd manylion penderfyniad y Cynulliad i beidio sefydlu'r Gronfa arfaethedig ar gyfer ffilm, teledu a'r cyfryngau newydd. Roedd hyn bellach yn golygu na fyddai ffynhonnell newydd o arian i gefnogi ffilmiau Cymraeg. Roedd gan y WDA gynlluniau ar y gweill i gryfhau'r diwydiannau creadigol ac i hyrwyddo budd economaidd teledu a ffilm ond nid oedd yna fanylion eto ar gael. Fe fyddai S4C â diddordeb yn y cynlluniau hynny pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Is-deitlo

Ystyriodd yr Aelodau bapur oedd yn disgrifio sefyllfa bresennol y gwasanaeth isdeitlo a ddarperir ac yn nodi cwestiynau perthnasol. Cafwyd trafodaeth fanwl ar y mater hwn a chytunwyd y dylai'r Tîm Rheoli ystyried y safbwyntiau wedi'u mynegi ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod gan gynnig opsiynau pendant i'w trafod.

Adolygiad S4C

Cyflwynwyd i'r Awdurdod ddrafft cyntaf o bapur ar gasgliadau'r adolygiad mewnol. Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau ar y ddogfen a chytunwyd y byddai drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod fyddai'n ceisio adlewyrchu pwyntiau wedi'u gwneud.

Cyllideb 2004-2013

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr Aelodau trwy'r ddogfen ar y gyllideb deng mlynedd oedd yn cael ei argymhell, gan fanylu ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2004. Cytunodd yr Awdurdod y dylid cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2004-2013 fel y'i cyflwynwyd.

Perthynas S4C gyda Ofcom

Trafodwyd papur oedd yn ystyried tair elfen o'r berthynas rheoleiddio rhwng S4C ac Ofcom, sef: adolygiad Ofcom ar ddarlledu cyhoeddus; sefydlu cwotâu; a datganiad o bolisi rhaglenni.

Pwyllgor Archwilio

Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi wedi gwahodd Dafydd Wigley i fod yn Gadair ar y Pwyllgor Archwilio a'i fod wedi cytuno i hyn.

Cydymffurfiaeth

Ystyriodd yr Aelodau llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Tinopolis yn dilyn penderfyniad yr Aelodau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2003 parthed y rhaglen *Pnawn Da* a ddarllledwyd ar 5 Mai 2003. Gobeithiwyd y byddai'r elfennau o'r llythyr oedd yn sôn am y camau a fyddai'n cael eu cymryd i osgoi'r fath yma o ddigwyddiad yn y dyfodol yn adlewyrchu agwedd y cwmni i'r dyfodol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni hefyd ei bod ers hyn wedi cael cyfarfod adeiladol gyda Tinopolis i drafod nifer o faterion, gan gynnwys, rheolaeth olygyddol gyda nhw. Esboniwyd y byddai penderfyniad yr Awdurdod fod hwn yn achos o dorri canllawiau S4C yn cael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 14 Tachwedd 2003.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil